

מקראה לקורס וולשית

Y Frân Ddu

① Yr oedd ar y Frân Ddu eisiau diod, a bu'n chwilio ym mhobman am ddŵr. ② O'r diwedd gwelodd biser mawr â thipyn bach, bach o ddŵr yn ei waelod.

③ "Wel! Wel!" meddai. ④ "Dyma ddŵr, ond ni allaf ei gael. ⑤ Mae fy mhig yn rhy fer i fynd i waelod y piser. ⑥ Pa beth a wnaif?"

⑦ Ceisiodd dorri'r piser, ond ni allai. ⑧ Ceisiodd ei daflu er mwyn i'r dŵr redeg allan, ond nid oedd yn ddigon cref.

⑨ "Rhaid imi eistedd i lawr i feddwl," meddai'r Frân Ddu.

⑩ Yna gwelodd bentwr mawr o gerrig mân, a daeth gwên fawr dros ei hwyneb. ⑪ Cododd o'i heistedd ac aeth at y cerrig. ⑫ Cariodd hwy bob yn un a'u gollwng i'r piser. ⑬ Ar ôl eu gollwng i gyd yr oedd y dŵr wedi codi'n uchel. ⑭ Rhoddodd y frân ei phig i mewn unwaith eto; ac yfodd nes gadael y piser heb ddim ond cerrig mân y tu mewn iddo.



Harri Potter a Maen yr Athronydd

① Broliai Mr a Mrs Dursley, rhif pedwar Privet Drive, eu bod nhw'n deulu cwbl normal, diolch yn fawr iawn ichi.

② Fyddai neb yn disgwyl iddyn nhw, o bawb, fod yn rhan o rywbeth rhyfedd neu anesboniadwy, oherwydd doedden nhw ddim yn credu yn y ffasiwn rwdlmi-lol.

③ Cyfarwyddwr cwmni cynhyrchu driliau o'r enw Grunnings oedd Vernon Dursley, dyn mawr, trwm â gwddf hynod o fyr, er bod ganddo fwstach hir iawn. ④ Dynes denau â gwallt melyn oedd Mrs Dursley. ⑤ Roedd ganddi hi bron ddwywaith y maint arferol o wddf, ac roedd hynny'n handi iawn gan ei bod hi'n treulio cymaint o amser yn ymestyn dros waliau'r ardd, yn sbecian ar y cymdogion. ⑥ Roedd gan y Dursleys fab bychan o'r enw Dudley, ac yn eu barn nhw doedd dim bachgen gwell yn bod.

⑦ Roedd gan y Dursleys bopeth roedd arnyn nhw'i eisiau, ond roedd ganddyn nhw hefyd gyfrinach, a'u hofn mawr oedd y byddai rhywun yn ei darganfod. ⑧ Doedden nhw ddim yn meddwl y medren nhw ei ddioddef petai rhywun yn dod i wybod am y Potters. ⑨ Roedd Mrs Potter yn chwaer i Mrs Dursley, ond doedden nhw ddim wedi cyfarfod



ers blynyddoedd; a dweud y gwir, cymerai Mrs Dursley arni nad oedd ganddi chwaer, oherwydd roedd ei chwaer a'i gŵr da-i-ddim mor an-Ddursleyaidd ag roedd yn bosib bod.

⑩ Arswydai'r Dursleys wrth feddwl beth ddywedai'r cymdogion petai'r Potters yn dod i'r stryd. ⑪ Gwyddent fod gan y Potters hefyd fab bychan, ond doedden nhw erioed wedi ei weld. ⑫ Roedd y bachgen hwn yn rheswm arall dros gadw'r Potters draw; doedden nhw ddim eisiau i Dudley gymysgu â phlentyn felly.

⑬ Pan ddeffrodd Mr a Mrs Dursley ar y bore Mawrth tamp, llwyd hwnnw lle mae ein stori ni'n dechrau, doedd dim byd yn yr awyr gymylog tu allan i awgrymu y byddai pethau rhyfedd ac anesboniadwy'n digwydd dros y wlad i gyd cyn bo hir. ⑭ Canai Mr Dursley o dan ei wynt wrth ddewis ei dei mwyaf anniddorol ar gyfer mynd i'r gwaith a sgwrsiai Mrs Dursley yn fodlon wrth lusgo Dudley, oedd yn sgrechian nerth esgryn ei ben, i'w gadair uchel.

⑮ Sylwodd yr un o'r ddau ar dylluan frech yn hedfan heibio'r ffenest.



Y Tywysog Bach

① Un tro, pan oeddwn i'n chwech oed, fe welais i lun godidog mewn llyfr am y fforest wryfol, llyfr o'r enw "Hanesion Byw". ② Llun o neidr boa yn llyncu anifail gwyllt oedd e. ③ Dyma gopi o'r darlun:

④ "Mae nadredd boa yn llyncu eu hysglyfaeth yn gyfan, heb eu cnoi," meddai'r llyfr. ⑤ "Maen nhw'n methu symud wedyn ac maen nhw'n mynd i gysgu am chwe mis i dreulio'r bwyd."

⑥ Bues i'n meddwl llawer am anturiaethau yn y jyngl wedi hynny, ac ymhen amser mi lwyddais i dynnu fy narlun cyntaf â phensil lliw. ⑦ Darlun rhif 1. ⑧ Tebyg i hyn oedd e:

⑨ Dangosais fy nghampwaith i oedolion, a gofyn a oedd fy narlun yn eu dychryn nhw.

⑩ "Pam dylai het ein dychryn ni?" oedd eu hateb.

⑪ Nid darlun o het oedd gen i. ⑫ Darlun o neidr boa yn treulio eliffant oedd e. ⑬ Yna mi dynnais i lun o du-mewn neidr boa er mwyn i'r oedolion gael deall.

⑭ Mae gofyn esbonio popeth iddyn nhw. ⑮ Tebyg i hyn oedd fy narlun rhif 2:



⑩ Cyngorodd yr oedolion fi i roi'r gorau i ddarlunio nadredd boa ar agor neu ar gau, a rhoi fy mryd yn hytrach ar ddaeryddiaeth, hanes, mathemateg, a gramadeg.

⑪ Dyna sut, a minnau'n chwech oed, y rhois i'r gorau i yrfa ddisglair fel arlunydd. ⑫ Roedd methiant fy narluniau rhif 1 a 2 wedi fy siomi. ⑬ Dydy oedolion byth yn deall dim byd heb help, ac mae plant yn blino gorfod esbonio iddyn nhw byth a beunydd.

⑭ Felly bu rhaid i fi ddewis gwaith arall, ac mi ddysgais hedfan awyrennau. ⑮ Rwy i wedi hedfan ryw gymaint i bob rhan o'r byd, ac yn wir mae daeryddiaeth wedi bod o fudd mawr i fi. ⑯ Fe allwn i wahaniaethu rhwng Tseina ac Arisona ar yr olwg gyntaf. ⑰ Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn pan fyddwch chi wedi colli eich ffordd yn y nos.

⑱ Rwy i wedi cwrdd â nifer fawr o bobl bwysig yn ystod fy mywyd. ⑲ Rwy i wedi treulio llawer o amser yn nhai oedolion. ⑳ Rwy i wedi eu gweld nhw'n agos iawn. ㉑ Dydy hynny ddim wedi gwella ryw lawer ar fy marn i ohonyn nhw.

㉒ Pan fyddwn i'n cyfarfod ag un oedd yn ymddangos i fi ychydig yn fwy deallus na'i gilydd, fe fyddwn i'n



rhoi prawf arno â darlun rhif 1, sy'n ddiogel gen i o hyd, er mwyn cael gwybod a oedd e yn ddeallus mewn gwirionedd. ²⁹ Ond yr un fyddai'r ateb bob tro, "Het yw hi." O hynny ymlaen fyddwn i ddim yn siarad ag e am nadredd boa, nac am fforestydd gwryfol, nac am sêr. ³⁰ Fe fyddwn i'n disgyn i'w lefel e, ac yn siarad ag e am chwarae cardiau, golff, gwleidyddiaeth a theis. ³¹ Ac fe fyddai'r oedolyn yn falch iawn o gael adnabod rhywun mor rhesymol.



Anturiaethau Alys yng Ngwlad Hud

① “Y ffordd acw,” ebe’r Gath gan chwifio’i phawen dde, “mae ’na Hetiwr yn byw; a’r ffordd acw,” gan chwifio’r llall, “mae ’na Sgwarnog Fawrth yn byw. ② Ewch i ymweld â’r naill neu’r llall: mae’r ddau yn wallgof.”

③ “Ond does arna’ i ddim eisiau mynd i blith pobol wallgof,” ebe Alys.

④ “O, fedrwch chi ddim peidio,” meddai’r Gath, “rydyn ni i gyd yn wallgof yma. ⑤ Rydw i’n wallgof. ⑥ Rydych chi’n wallgof.”

⑦ “Sut gwyddoch chi mod i’n wallgof?” gofynnodd Alys.

⑧ “Rhaid eich bod chi,” ebe’r Gath, “neu fuasech chi ddim wedi dod yma.”



Llyfr Genesis

Hanes y Creu

- ① Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.
- ② Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd.
- ③ A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni.
- ④ Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch.
- ⑤ Galwodd Duw y goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos. A bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf.

Tŵr Babel

- ① Un iaith ac un ymadrodd oedd i'r holl fyd.
- ② Wrth ymdeithio yn y dwyrain, cafodd y bobl wastadedd yng ngwlad Sinar a thrigo yno.
- ③ A dywedasant wrth ei gilydd, "Dewch, gwnawn briddfeini a'u crasu'n galed." Priddfeini oedd ganddynt yn lle cerrig, a phyg yn lle calch.



④ Yna dywedasant, “Dewch, adeiladwn i ni ddinas, a thŵr a’i ben yn y nefoedd, a gwnawn inni enw, rhag ein gwasgaru dros wyneb yr holl ddaear.”

⑤ Disgynnodd yr Arglwydd i weld y ddinas a’r tŵr yr oedd y bobl wedi eu hadeiladu,

⑥ a dywedodd, “Y maent yn un bobl a chanddynt un iaith; y maent wedi dechrau gwneud hyn, a bellach ni rwystrir hwy mewn dim y bwriadant ei wneud.

⑦ Dewch, disgynnwn, a chymysgu eu hiaith hwy yno, rhag iddynt ddeall ei gilydd yn siarad.”

⑧ Felly gwasgarodd yr Arglwydd hwy oddi yno dros wyneb yr holl ddaear, a pheidiasant ag adeiladu’r ddinas.

⑨ Am hynny gelwir ei henw Babel, oherwydd yno y cymysgodd (Hebraeg, *balal*) yr Arglwydd iaith yr holl fyd, a gwasgarodd yr Arglwydd hwy oddi yno dros wyneb yr holl ddaear.



Teithio drwy Hanes

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

① Os ydy'r diwydiant glo wedi creu gwaith a chwyddo poblogaeth de-ddwyrain Cymru, wnaeth y diwydiant llechi greu gwaith a thirlun arbennig yng ngogledd-orllewin y wlad.

② Dych chi'n gallu dysgu llawer am y diwydiant llechi yn Amgueddfa Lechi Cymru ger Llanberis. ③ Yn hen weithdai Chwarel Dinorwig, ar lan Llyn Padarn, y mae cartref yr amgueddfa.

④ Mae'r tir llwyd o gwmpas yr amgueddfa yn dweud llawer o stori'r diwydiant llechi. ⑤ O'r creigiau yma gaeth y llechen ei naddu a'i hollti a'i defnyddio i adeiladu.

⑥ Wedyn gaeth y llechen ei defnyddio i wneud pethau fel bwrdd du mewn ysgol, bwrdd biliards a cherrig beddi.

⑦ Roedd llawer o'r llechi'n mynd i Loegr, Iwerddon a'r Almaen. ⑧ Yn 1688, aeth miliwn o lechi o Gymru i

wledydd eraill. ⑨ Yn 1898 roedd 17,000 o ddynion yn gweithio yn y diwydiant llechi. ⑩ Roedden nhw'n gwneud

gwaith caled a pheryglus. ⑪ Wnaeth rhai trefi dyfu achos y gwaith — trefi fel Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

⑫ Wnaeth porthladdoedd fel Porth Penrhyn, Porthmadog a



Phort Dinorwig dyfu hefyd. ⑬ Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf wnaeth y diwydiant ddirywio a nawr dim ond llond llaw o chwareli sydd yng Nghymru, yn cyflogi dim ond llond llaw o bobl.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

① Mae pob llyfrgell yng Nghymru yn drysor, ond does dim un llyfrgell mor werthfawr â Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

② Roedd 110,000 o bobl Cymru wedi cyfrannu arian i godi'r adeilad hardd ar y bryn, mae'n debyg. ③ Mae 6.5 miliwn

o eitemau ar y silffoedd yma! ④ Un o'r eitemau hynny ydy Llyfr Du Caerfyrddin, sef un o'r llawysgrifau Cymraeg

hynaf. ⑤ Yma hefyd mae Llyfr Taliesin, a gweithiau o Loegr, fel gwaith Geoffrey Chaucer.

⑥ Dydy popeth sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ddim yn

hen. ⑦ Mae papurau newydd, cryno-ddisgiau a rhaglenni

teledu yn cael eu cadw yma. ⑧ Bob dydd mae eitemau newydd yn cyrraedd yr adeilad mawr, trawiadol.

⑨ Gaeth y Llyfrgell ei sefydlu yn 1907, ar ôl ymgyrch

hir. ⑩ Yn 1905 roedd Llywodraeth Prydain wedi addo sefydlu llyfrgell ac amgueddfa genedlaethol i Gymru.



⑪ Roedd rhai pobl eisiau i'r llyfrgell fod yn Aberystwyth, ond roedd pobl eraill eisiau iddi fod yng Nghaerdydd.

⑫ Wnaeth David Lloyd George gefnogi'r ymgyrch i sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

⑬ Un rheswm am hyn oedd achos bod Syr John Williams, meddyg a chasglwr llyfrau, wedi cynnig ei gasgliad gwerthfawr o lyfrau a swm o arian i sefydlu llyfrgell yn Aberystwyth.

⑭ Mae copi o bob llyfr sy'n cael ei gyhoeddi yng Nghymru yn mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol. ⑮ Bydd copi o'r llyfr hwn yno erbyn hyn!

Y Senedd, Bae Caerdydd

① Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn symbol o'r Gymru newydd. ② Yn y Senedd ym Mae Caerdydd mae cartref y Cynulliad. ③ Yn 1997 gaeth pobl Cymru y cyfle i bleidleisio o blaid neu yn erbyn sefydlu Cynulliad i Gymru.

④ Roedd y canlyniad yn agos iawn, gyda 559,419 yn dweud 'Ie' a 552,698 yn dweud 'Na'. ⑤ Roedd Machynlleth, Abertawe a Wrecsam eisiau i adeilad y Cynulliad fod yn eu tref nhw, ond Caerdydd oedd y dewis. ⑥ Aeth y Cynulliad i gartref dros dro yng Nghaerdydd, sef Tŷ Crucywel.

⑦ Syr Richard Rogers gynlluniodd yr adeilad newydd —



adeilad agored gyda llawer o wydr a llechi a dur. ⑧ Gaeth yr adeilad ei agor yn 1999. ⑨ Adeilad newydd, mileniwm newydd! ⑩ Mae'r adeilad yn edrych dros gronfa ddŵr croyw Bae Caerdydd a'r morglawdd newydd. ⑪ Un o gymdogion y Senedd ydy Canolfan Mileniwm Cymru. ⑫ Ar adeilad Canolfan y Mileniwm mae cerdd mewn llythrennau enfawr — rhai o'r rhai mwyaf yn y byd. ⑬ Geiriau Gwyneth Lewis ydy 'Creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen', ac yn Saesneg, 'In these stones horizons sing'. ⑭ Geiriau bendigedig i orffen y llyfr yma.



Hunangofiant

Darlun

① Y mae'n fore Sadwrn gwlyb, oer, diwrnod fy mhen blwydd yn chwech oed. ② Mae mam newydd llnau tua'r tân, ac mae tân isel, coch yn y grât. ③ Safaf innau wrtho, ac er y gwres, mae arnaf annwyd oherwydd y tywydd diflas. ④ Yr wyf yn crïo ac yn crïo, ac ni wn am beth, ddim ond efallai am ei bod yn ddiwrnod annifyr. ⑤ Yr wyf yn sicr nad am na chefais anrheg, oblegid nid ydym byth yn cael anrhegion pen blwydd. ⑥ Mae mam yn dweud bod y Brenin Mawr yn gofalu am anfon glaw ar ddydd Sadwrn am nad oes ysgol.

Atgofion

① Un peth a hoffem yn fwy na dim fyddai gweld pobl yn galw gyda'r nos yn enwedig os byddent yn bobl ddiddorol ac yn gallu dweud straeon. ② Un o'r rheini fyddai Ann Jones, Tan Gaer, oedd yn byw ymhell o'r capel wrth ymyl y chwarel. ③ Felly pan fyddai cwarfod byddai hi yn dŵad i lawr efo'i thri phlentyn, ac aros yn ein tŷ ni tra byddai'r plant yn y cyfarfod. ④ Wedyn deuai'r



plant i lawr efo ni a chael tamaid o fwyd cyn cychwyn adref. ⑤ Yr oedd hi a'i gŵr yn rhai glân eu clonau ac yn ddigri, y ddau ohonynt, y hi yn ffraeth iawn ei thafod. ⑥ Byddai ganddi storïau am yr amser yr oedd yn gweini yn Llanwnda mewn ffarm, a'r Parch. Richard Humphreys, Bontnewydd, hen lanc yn lletya ar y ffarm.

⑦ Un bore prysur aeth Mr. Humphreys i'r gegin i ofyn yn wylaidd iawn a oedd ei esgidiau yn barod. ⑧ “Nac ydyn, Mr. Humphreys,” meddai hithau, “mae ar yr hen gythral hen ddynas yma eisio gweld y piseri llaeth yn sgleinio ar ben y wal yna o flaen y ffenast, a ches i ddim amser i llnau nhw.” ⑨ Y Parch. R.H. yn ymgilio dan wenu i'r parlwr.

⑩ Un arall a alwai acw yn fynych gyda'r nos fyddai Wmffra Jones, Bryn Golau, neu Wmffra Siôn fel y gelwid ef gan bawb. ⑪ Yr wyf wedi sôn amdano yn Y Lôn Wen. ⑫ Fo fyddai cydymaith nhad wrth fynd a dŵad i'r chwarel.

⑬ Yr oedd ganddo un stori amdano ef a Nani, ei wraig, yn mynd i'r Sŵ yn Belle Vue, Manceinion. ⑭ Yr oedd plu estrys yn ffasiynol ar hetiau y pryd hynny, ac yn ddigon drud hefyd. ⑮ Cafodd mwnci afael ar bluen estrys




Nani, a'i thynnu i mewn i'w gawell, ac ni welwyd byth
moni. ¹⁶ Yr unig gŵyn a gafodd y wraig gan ei gŵr
oedd, "Tendia Nani ne dy ben di eith nesa."

¹⁷ Fel yna y treulid gyda'r nos, ac un noswaith fe aeth
mor hwyr nes cododd Wmffra Jones reit sydyn, a tharo
ei ben yn y simdde fawr a disgyn yn ôl yn glewtan
i'w gadair.



Erthygl Wicipedia am Ferdinand de Saussure

① Ieithydd o'r Swistir oedd Ferdinand de Saussure (26 Tachwedd 1857 - 22 Chwefror 1913). ② Mae'n cael ei barchu fel tad ieithyddiaeth gyfoes. ③ Roedd ei syniadau yn sail i strwythuriaeth, theori a ddaeth yn ganolog i ieithyddiaeth yr 20g, ac a oedd yn ddylanwadol iawn mewn meysydd eraill megis anthropoleg a beirniadaeth lenyddol. ④ Ganwyd yng Ngenefa a roedd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Genefa, lle traddododd gyfres o ddarlithoedd yn amlinellu ei syniadau am iaith yn ystod y blynyddoedd 1906 tan 1911. ⑤ Cyhoeddwyd y darlithoedd hyn gan ei gyn-fyfyrrwyr ar ôl ei farwolaeth fel Cwrs Ieithyddiaeth Gyffredinol (*Cours de linguistique générale*), llyfr pwysicaf ieithyddiaeth gyffredinol hanner cynta'r 20g. ⑥ Bu farw yn Vufflens-le-Château ger Morges.



Gofid

① Eisteddai Begw ar stôl o flaen y tân, a'i chefn, i'r neb a edrychai arno, yn dangos holl drychineb y bore.

② Cyffyrddai ymylon ei siôl dair onglog â'r llawr, a'r llawr yn llawn o byllau mân yn disgyn oddi wrth facsiau eira ag ôl pedolau clocsiau ynddynt.

③ Heddiw, yn wahanol i arfer, yr oedd ei gwallt yn flêr, a hongiai'n gynhinion di-drefn ar ei hysgwydd.

④ Am ryw reswm na wyddai Begw, ni phlethasai ei mam ei gwallt neithiwr.

⑤ Yr oedd hynny'n beth braf, oblegid byddai ei mam yn tynnu ei gwallt bron o'r gwraidd wrth ei blethu, gyda holl wydnwch ei breichiau a holl rym y dymer y byddai ynddi.

⑥ Byddai ei phen yn ysu am oriau ar ôl y driniaeth, ond byddai'n braf yn y bore, ar ôl datod y plethi, gael teimlo'r trwch tonnog yn disgyn heibio i'w chlustiau ac ar ei gwddf.

⑦ Chwythai'r gwynt oer o dan y drysau gan chwythu rhidens y siôl a mynd dan ei thrywsus pais, ond âi gwres y tân at ei phen.

⑧ O fewn pedair blynedd ei phrofiad ar y ddaear dyma'r diwrnod mwyaf digalon a gawsai Begw erioed — diwrnod du, diobaith er bod pob man yn wyn.

⑨ Cronnai ei



hanadl wrth geisio dal ei hocheneidiau'n ôl. ⑩ Yr oedd arni ofn cael drwg gan ei mam, fel y câi bob amser am ddal i grio. ⑪ Ond daeth llais ei mam yn fwynach nag arfer y tro hwn.

⑫ 'Dyna chdi rŵan. ⑬ Waeth befo hi. ⑭ Dim ond cath oedd hi. ⑮ Beth tasai ti wedi colli dy fam?'

⑯ Torrodd yr argae wedyn. ⑰ Ar y funud buasai'n well ganddi hi golli ei mam na cholli Sgiatan. ⑱ Yr oedd Sgiatan yn ffeind bob amser a'i mam ddim ond ambell dro. ⑲ Daeth yr hyn a welsai hanner awr yn gynt i'w meddwl yn ei holl fanylion a'i gorchfygu eto.

⑳ Wrth godi'r bore hwnnw, edrychaisi Begw ymlaen at ddiwrnod-gwahanol-i-arfer, am fod yr eira mawr hyd y ddaear, un o'r dyddiau hynny pan gâi dynnu'r llyfr â'r lluniau ofnadwy a'i roi ar y setl, un o'r dyddiau pan gâi wisgo ei hesgidiau gorau, diwrnod tebyg i'r un pan gafodd wlanen a saim gŵydd am ei gwddf a chael brechdan grasu â dŵr a siwgr a sunsur arni, un o'r dyddiau pan eisteddai ei mam wrth y tân i adrodd stori wrthi. ㉑ Paratoad i'r diwrnod-gwahanol-i-arfer oedd peidio â chael plethu ei gwallt y noson gynt. ㉒ Parhad o hyn oedd cael gwisgo amdani cyn ei 'molchi a tharo siôl drosti.



23 Pan gododd, nid oedd Sgiatan o gwmpas yn unlle, ac er gweiddi 'Pws, Pws', ni ddaeth o unman. 24 Toc, mentrodd agor y drws cefn a dyna lle'r oedd Sgiatan — nid ar garreg y drws yn codi ei chynffon ac yn barod i'w rhwbio ei hun yn ei choesau, ond yn gorwedd mewn crwc o ddŵr, ei phedair coes wedi ymestyn allan fel y byddent weithiau ar fatyn yr aelwyd, ond ei dannedd yn ysgyrnygu fel yr hen anifail hyll hwinnw yn y 'Drysorfa'r Plant', a'i blew, ei blew melfed, fel hen falwen seimllyd ar lwybr yr ardd, â'i llygaid mor llonydd a rhythlyd â llygaid gwydr ei dol. 25 Ni allai gredu ei bod yn bosibl i Sgiatan, a ganai'r grwndi efo hi cyn iddi fynd i'r gwely neithiwr a wincio arni oddi ar y stôl haearn, fod wedi —. 26 Ni allai ddweud y gair. 27 Yr oedd yn rhy ofnadwy. 28 Ie, ond wedi marw yr oedd, nid oedd yn rhaid i neb ddweud wrthi mai dyma beth oedd marw. 29 Yr oedd hi fel y llygoden a aeth i'r trap. 30 'Cau'r drws yna, a thyrd i'r tŷ, mae hi'n oer.' 31 Ei mam yn galw arni, ond sut yr oedd yn bosibl dyfod i'r tŷ. 32 Llygad-dynnid hi at y corff marw. 33 Yr oedd arni ei ofn ac yr oedd arni eisiau rhedeg oddi wrtho, ond hoelid hi wrth y ddaear i edrych arno. 34 Tywynnai'r



haul yn danbaid ar wynder yr eira, a disgynnai'r dafnau parhaus oddi ar y bondo ar ei phen. 35 Yr oedd mwclis gwydr yr eira yn estyn crafangau hir allan i dynnu'r dŵr o'i llygaid a'i llygaid bron â mynd ar ôl y dagrau.

36 Ond ni fedrai symud. 37 Pan ddaeth llais ei mam yr eildro, caeodd y drws a thu ôl i'w dywyllwch y teimlodd bang gyntaf y cau drysau a fu yn ei bywyd wedyn.

38 Ei bwriad cyntaf oedd mynd yn ôl i'w gwely er mwyn cael crio'n iawn a rhoi ei phen o dan y dillad. 39 Pe rhoddai ei phen o dan y dillad a chau ei llygaid, byddai yno dywyllwch a dim byd ac ni fedrai weld Sgiatan yn ysgyrnygu ei dannedd.

40 "D wyt ti ddim i fynd i'r siamber yna yn dy glocsiau."

41 O, diar, yr oedd bywyd yn galed. 42 "D wyt ti ddim i wneud hyn, 'dwyt ti ddim i wneud y llall.' A dim Sgiatan i rwbio'i phen yn ei choesau. 43 Aeth at y tân o lech i lwyn, eistedd ar y stôl a beichio crio.

44 'Taw â chlegar,' oddi wrth ei thad. 45 Clegar — clegar — hen air hyll. 46 Ei thad yn defnyddio hen air fel yna a Sgiatan wedi — wedi — marw!

47 Cododd i nôl ei doli bren a lapiodd ei siôl amdani.



④⑧ Criodd gymaint am ei phen nes y rhedodd y paent ac i'w cheg. ④⑨ Ceisiai ei swatio yn ei chesail, ond sut oedd modd magu hen beth caled felly ar ôl magu peth mor esmwyth â Sgiatan a edrychai mor ddigri â'i phen allan o'r siôl? ⑤⑩ Wrth gofio hynny wedyn, taflodd y ddol i lygad y tân. ⑤⑪ Buasai wrth ei bodd yn ei gweld yn fflamio — y ddol yn cael mynd i'r "tân mawr" ac nid Begw — y hi a'i hen wyneb paent, hyll. ⑤⑫ Cipiodd ei mam hi o'r fflamau ond nid cyn rhoi clustan iawn i'w merch. ⑤⑬ Aeth y crio'n sgrechian.

⑤⑭ 'Wel, wir, 'd wn i ddim beth wna i efo'r plentyn yma.'

⑤⑮ 'Eisiau chwip din iawn sydd arni,' meddai ei thad.

⑤⑯ 'Mi allasach chitha feddwl ddwywaith cyn boddi'r gath.

⑤⑰ 'D wn i ddim beth ydi rhyw ysfa rhoi cath mewn bwced sydd ynoch chi o hyd, cyn gynted ag y gwnaiff hi rywbeth.'

⑤⑱ Felly ei thad a wnaeth. ⑤⑲ Cododd Begw ac aeth i ben y sofa ac edrych allan. ⑥⑰ Yr oedd y ddaear i gyd yn fwclis, a'r coed yn estyn bysedd hirion, gwynion tuag atynt. ⑥⑱ Swatiair ieir yng nghornel yr ardd â'u



pennau yn eu plu, yr un fath yn union ag y stwffiai hithau ei phen i'w bwa blewog yn y capel ar fore Sul oer. ⁶² Yr oedd hen Jac Do mawr du yn pigo asgwrn yn yr eira a lot o adar gwynion fel gwyddau ymhobman. ⁶³ Ar hyd pen y clawdd yr oedd cris-croes ôl traed yr ieir. ⁶⁴ Rhedai ei llygaid ar ôl yr eira yn bell bell. ⁶⁵ Yr oedd fel crempog fawr a lot o dyllau ynddi a chylllell ddu las rhyngddi a Sir Fôn. ⁶⁶ Ond yr oedd ei phen yn troi wrth edrych arni ac yr oedd ei llygaid am ddyfod allan o'i phen o hyd. ⁶⁷ Dechreuodd y grempog godi rownd ei hymyl a chychwyn tuag ati. ⁶⁸ Syrthiodd Begw ac ni wyddai ddim wedyn ond ei bod ar lin ei mam, ei phen yn gorwedd ar wlanan arw ei bodis, a'r gadair yn siglo ôl a blaen, blaen ac ôl. ⁶⁹ Agorodd Begw fotymau'r bodis, a rhoes ei llaw oer ar fron gynnes ei mam. ⁷⁰ Gyda chil ei llygad gallai weled ei thad ac wrth ei gysylltu â'i gofid caeodd ei llygaid yn sydyn, a thoc aeth i gysgu. ⁷¹ Gwenai'r hen ddoli nain drwy ei sbectol o'r cwpwrdd gwydr ar y tri, daliai'r llong ar ben y cloc i daro ei gwegil yn y môr ar un ochr ac i foesymgrymu i'r môr yr ochr arall, ac edrychai'r pregethwr yn sarrug iawn o'i



ffrâm ar y pared.

72 Y noson honno, deffroes Begw yn ei gwely rywdro yng nghanol y nos fawr. 73 Agorodd ei llygaid ar y blanced ddu o dywyllwch. 74 Ni allai ddweud ym mha le'r oedd y ffenestr na'r drws. 75 Rhaid ei bod ymhell ar y nos, oblegid ni ddeuai golau'r tân i mewn drwy ddrws y siamber. 76 Ni chlywai Begw ddim ond sŵn anadl ei mam — 'pw — pw' o hyd. 77 Ond yn sydyn o'r tywyllwch dyma rhywbeth yn neidio o'r llawr ar y gwely ac yn ôl drachefn yr un mor sydyn. 78 Cyffyrddodd eiliad â bodiau ei thraed ac yna diflannodd i'r distawrwydd. 79 Sgiatan wedi dŵad yn ôl, meddyliai Begw wrthi hi ei hun. 80 Ond er holi a holi drannoeth, ni chafodd eglurhad ar y mater, dim ond pawb yn gwneud hwyl am ei phen a gwrthod ei chredu, 'am ei bod yn dychmygu pethau.'

